CYSTADLAETHAU NEWYDD I EISTEDDFOD Y FENNI 2010

Dyddiad cau i gystadleuwyr 22 Mai 2010

Cyhoeddwyd nifer o gystadlaethau newydd ar gyfer Eisteddfod Y Fenni eleni, a gynhelir y 19 Mehefin.

Am y tro cyntaf, gwahoddir plant dan 11 i roi cais ar ddawnsio unigol neu mewn parau, gan ddefnyddio unrhyw arddull – gan gynnwys bale, neuadd ddawns neu ddisgo – yn ogystal â'r dawnsio disgo a dawnsio gwerin mewn grwpiau.

Ymhlith y cystadlaethau newydd i bobl ifainc 11-18 oed mae'r cyfle i greu a pherfformio sgetsh pum munud ar lwyfan ysgol Brenin Harri'r VIII bnawn Dydd Sadwrn. Ceir cystadlaethau offerynnol agored ac un yn defnyddio allweddell electronig, ynghyd â'r cystadlaethau piano clasurol.

Y llynedd cafwyd cystadleuaeth newydd lwyddiannus iawn i gorau o oedolion, ac mae trefnwyr yr Eisteddfod yn disgwyl nifer o geisiadau eleni gan grwpiau lleol a rhai o drefi a phentrefi ledled de Cymru. Gall oedolion dan 25 oed gystadlu mewn cystadlaethau offerynnol a lleisiol, gyda rhai hefyd yn dewis rhoi cais am y gystadleuaeth agored boblogaidd "Cân o Sioe Gerdd."

Croesewir ymwelwyr i'r rhagbrofion a'r cystadlaethau terfynol. Yn Ysgol Brenin Harri'r VIII mae diwrnod cyfan o gystadlu i'r bobl ifainc hyd at 18 oed. Yng Nghapel y Methodistiaid yn Y Fenni y cynhelir rhagbrofion yr oedolion, a'r cystadlaethau terfynol yn unig ar lwyfan Theatr y Bwrdeistref Y Fenni gyda'r nos, mewn ffurf Cyngerdd Mawreddog.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cystadlaethau, sut i gystadlu a sut i brynu tocynnau, ar y wefan hon, yn nhudalennau "Eisteddfod eleni."

Am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod:

Chris Watson, Ysgrifennydd 01873 853894
Chris Ellis, Golygydd y wefan 01873 853988
Ceri Thomas, Cadeirydd 01873 850379